Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

Ystafell Bwyllgora 5 – Tŷ Hywel

Dyddiad: Dydd Iau, 29 Tachwedd 2018

Amser: 09.15 – 11.07

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5141

Preifat

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	Llyr Gruffydd AC (Cadeirydd) Jane Hutt AC David Rees AC
Tystion:	Andrew Jeffreys, Dirprwy Gyfarwyddwr, Buddsoddi Cyfalaf Strategol, Llywodraeth Cymru Steve Davies, Llywodraeth Cymru
Staff y Pwyllgor:	Bethan Davies (Clerc) Georgina Owen (Dirprwy Glerc) Martin Jennings (Ymchwilydd) Joanne McCarthy (Ymchwilydd) Christian Tipples (Ymchwilydd) Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Mike Hedges AC Neil Hamilton AC, Rhun ap Iorwerth AC a Nick Ramsay AC.

2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

2.1 PTN1 - Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid: Cyllideb y DU ar gyfer yr Hydref 2018 - Arian canlyniadol i DEL Cymru - 19 Tachwedd 2018

2.2 PTN2 - Llythyr gan Gomisiwn y Cynulliad: Cynllun Ymadael Gwirfoddol 2018 - 20 Tachwedd 2018

2.3 PTN3 - Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid - Treth Tir Gwag - 20 Tachwedd 2018

3 Y Model Buddsoddi Cydfuddiannol: Sesiwn Briffio Technegol

3.1 Cafodd y Pwyllgor sesiwn briffio technegol ar y Model Buddsoddi Cydfuddiannol gan swyddogion o Lywodraeth Cymru, sef Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr, Trysorlys Cymru; a Steve Davies, Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyllid Arloesol.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor i drafod strategaeth ariannu cyfalaf Llywodraeth Cymru maes o law.

4 Bil Awtistiaeth (Cymru): trafod yr adroddiad drafft

5 Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru): trafod y gwelliannau arfaethedig ar gyfer Cyfnod 2

5.1 Trafododd y Pwyllgor y gwelliannau arfaethedig y bydd yn eu cyflwyno i'r Bil Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) yng Nghyfnod 2, a chytunodd arnynt.

6 Goblygiadau ariannol y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) sydd i ddod

6.1 Cytunodd y Pwyllgor i benodi Ymgynghorydd Annibynnol i gynorthwyo'r Aelodau gyda'u gwaith craffu ariannol ar y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) sydd i ddod.

7 Ariannu cyrff a ariennir yn uniongyrchol

7.1 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at gyrff a ariennir yn uniongyrchol ac at Lywodraeth Cymru yn gofyn am sylwadau ynghylch y cyfarwyddyd a'r arweiniad a ddarperir gan y Pwyllgor wrth iddynt bennu eu hamcangyfrifon.

8 Trafod y flaenraglen waith

8.1 Trafododd y Pwyllgor ei flaenraglen waith.

9 Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2018

9.1 Nododd y Pwyllgor yr offeryn statudol.